

Symud Allan neu Ddod â Thenantiaeth i Ben

I ddod â'ch tenantiaeth i ben rhaid i chi roi rhybudd ysgrifenedig o leiaf 4 wythnos o flaen llaw, gyda'r wythnos yn diwedd ar ddydd Sul. Rhaid i'r rhybudd gael ei lofnodi mewn ffurflen 'Hysbysiad Gadael'. Mae'r ffurflen hon ar gael o'ch Swyddfa Dai a'ch Hyb Lleol, neu drwy ffonio Ymholiadau Tai.

Mae rhent yn ddyledus ar yr eiddo am y cyfnod rhybudd 4 wythnos, hyd yn oed os penderfynwch adael cyn diwedd y cyfnod hwnnw. Os ydych yn derbyn budd-dal tai, dim ond pan ydych yn byw yn yr eiddo y bydd yn cael ei dalu. Bydd unrhyw ddyledion sydd gennych wrth adael yn cael eu hadennill gan y Cyngor. Mae'n hanfodol yn ôl eich cytundeb tenantiaeth i chi ganiatáu cynrychiolydd o'r Cyngor i archwilio'ch cartref ac i ddarpar denantiaid weld yr eiddo yn ystod y cyfnod rhybudd 4 wythnos.

Rhaid i'r eiddo fod yn wag wedi i chi adael, a neb yn byw yno. Rhaid i chi sicrhau bod yr eiddo yn lân ac yn daclus a bod eich holl eiddo a sbwriel wedi eu symud oddi yno, yn cynnwys yr atig, yr ardd, ardaloedd allanol, siediau neu'r garej. Os byddwch yn gadael yr eiddo yn frwnt, neu os ydych chi'n gadael eiddo neu sbwriel, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi dalu am lanhau neu glirio'r eiddo. Mae'n bosibl hefyd y bydd yn rhaid i chi dalu am unrhyw niwed i'r eiddo, neu os oes

pethau ar goll neu os bydd angen newid y cloeon am nad ydych wedi dychwelyd yr allweddi.

Chi sy'n gyfrifol am filiau'r eiddo ac am ddarparu eich cyfeiriad newydd. Rhaid i chi felly:

- gysylltu â'ch cyflenwr nwy a/neu drydan a rhoi darlleniad olaf eich mesurydd er mwyn iddyn nhw gyflwyno'ch bil terfynol
- cysylltu â Dŵr Cymru er mwyn iddyn nhw anfon bil terfynol atoch (rhowch ddarlleniad mesurydd os oes un gennych)
- cysylltu â'ch darparwr ffôn a rhyngwyd
- cysylltu â'r Post Brenhinol i ailgyfeirio'ch post.

Rhaid i chi sicrhau bod yr eiddo yn ddiogel cyn i chi ddychwelyd eich allweddi, felly sicrhewch fod y drysau a'r ffenestri i gyd wedi eu cloi. Os ydych yn symud unrhyw declynnau nwy/trydan sy'n eiddo i chi, rhaid iddynt gael eu datgysylltu gan beiriannydd cymwys yn unol â rheolau lechyd a Diogelwch. Rhaid i bob piben gael ei selio a rhaid diffodd y cyflenwad. Rhaid i chi sicrhau bod pibau'r peiriant golchi yn gweithio.

Proud to Deliver
Yn Falch o Gyflawni



Rhowch label gyda'r cyfeiriad arno ar eich allweddi (sicrhewch eich bod yn dychwelyd unrhyw ffobiau, allweddi sied, ffenestri neu garej) yn cynnwys allweddi a allai fod gan ffrindiau neu berthnasau **cyn canol dydd ar y dydd Llun ar ôl diwedd eich tenantiaeth.** Os nad ydych yn dychwelyd yr allweddi mae'n bosib y codir tâl arnoch am ddefnyddio'r eiddo yn unol â'r rhent a gollwyd pan fo'r allweddi dal yn eich meddiant chi. Ni fydd hyn yn golygu bod eich tenantiaeth yn cael ei hadnewyddu na bod tenantiaeth newydd yn cychwyn.

Os ydych wedi gwella eich eiddo, rhoi cegin newydd i mewn neu osod gwres canolog, er enghraifft, ystyrir hyn fel rhywbeth parhaol a rhaid i chi eu gadael yn eu lle wrth adael.

Gellir mynd â gwelliannau bach, y gellir eu symud yn hawdd, (traciau llenni er enghraifft) gyda chi. Sicrhewch eich bod yn trwsio unrhyw ddifrod a achoswch wrth symud eitemau o'r fath e.e. llenwi tyllau ac ail-baentio.

Os bydd tenant i'r Cyngor yn marw, rhowch wybod i ni. Os ydych wedi llenwi ffurflen Dweud Wrthym Unwaith mewn unrhyw swyddfa byddwn yn cael gwybod. Os mai chi yw'r perthynas agosaf, chi fydd yn gyfrifol am symud eiddo o'r cartref. Bydd y rhent yn parhau'n ddyledus tan i'r allweddi gael eu dychwelyd i swyddfa.

